Solicitors Regulation Authority | SQE

# Cwestiwn enghreifftiol SQE2 a thrafodaeth ar yr ateb

Eiriolaeth (Datrys Anghydfodau)

*Adolygwyd 2 Rhagfyr 2024*

Bydd ymgeiswyr yn sefyll 16 o asesiadau yn SQE2. Er mwyn pasio SQE2, rhaid i ymgeiswyr gael y marc pasio cyffredinol ar gyfer SQE2.

Mae'r cwestiwn enghreifftiol hwn, a thrafodaeth ar yr ateb, yn enghraifft o asesiad eiriolaeth gyfreithiol. Rhoddir 45 munud i ymgeiswyr baratoi ar gyfer yr eiriolaeth a 15 munud i gyflawni eu hargymhellion.

Am ragor o fanylion gweler Manyleb Asesu SQE2.

**Sylwer bod y cwestiynau enghreifftiol wedi cael eu cyhoeddi er mwyn rhoi syniad o'r math o dasgau y gellid eu gosod i ymgeiswyr. Nid ydynt yn adlewyrchu'r holl ddeunydd sydd wedi'i gynnwys yn SQE2. Efallai na fydd cwestiynau yn y dyfodol yn dilyn yr un fformat yn union.**

# Cwestiwn a phapurau ychwanegol i ymgeiswyr

**Nodyn i Ymgeiswyr:**

**Fe welwch fod rhai termau Cymraeg yn yr asesiad hwn yn cael eu dilyn gan y term Saesneg cyfatebol mewn cromfachau. Yn ogystal, mae rhestr eirfa, sydd wedi'i chynnwys, wedi'i ffurfio o'r termau hynny.**

**E-bost at yr Ymgeisydd**

---

| | |
|---|---|
| **Oddi wrth:** | Partner |
| **Anfonwyd:** | 15 Awst 202# |
| **At:** | Yr Ymgeisydd |
| **Pwnc:** | Manston Press Limited v Hoswell Fabrics Limited – cais i roi o'r neilltu (set aside) ddyfarniad trwy ddiffyg (judgment in default) |

Rydym yn gweithredu ar ran y Diffynnydd, Hoswell Fabrics Limited, mewn achos llys a ddygwyd gan yr Hawlydd, Manston Press Limited, am dorcontract. Cafodd yr Hawlydd ddyfarniad trwy ddiffyg ar 16 Mehefin 202#. Hoffwn i ti fynd i wrandawiad ar fy rhan i heddiw yn y Llys Sirol i gynrychioli'r Diffynnydd trwy **wneud cais i roi o'r neilltu ddyfarniad a gofnodwyd gan (entered by) yr Hawlydd, oherwydd diffyg cydnabyddiad cyflwyno (acknowledgment of service).**

Rwy'n atodi bwndel o ddogfennau, y mae manylion amdanyn nhw wedi'u nodi isod o dan y pennawd 'Atodiadau'. Bydd gan y Barnwr Rhanbarth y dogfennau hyn. Mae'r dogfennau hyn i gyd yn cydymffurfio â gofynion y Rheolau Trefniadaeth Sifil. Ystyrir bod y Ffurflen Hawlio a Manylion yr Hawliad wedi cael eu cyflwyno ar 18 Mai 202# a chofnodwyd dyfarniad oherwydd diffyg cydnabyddiad cyflwyno (eto yn unol â'r Rheolau Trefniadaeth Sifil) ar 16 Mehefin 202#. Cyhoeddwyd cais y Diffynnydd i roi dyfarniad o'r neilltu ar 5 Gorffennaf 202# ac mae wedi cael ei gyflwyno'n gywir.

Diolch,

Partner

**ATODIADAU:**

1. Manylion yr Hawliad
2. Datganiad tyst Ms Mabel Adams, gan gynnwys arddangosyn (exhibit) MA1
3. Datganiad tyst Mr Brynn Parsons

**Nodyn i Ymgeiswyr:**

1. **At ddiben yr asesiad hwn, eich cwmni yw Spring & Hughes LLP, 28 Rose Walk Gardens, Llundain W1 6FM.**

2. **Bydd gan y Barnwr Rhanbarth ffeil y llys yn y gwrandawiad heddiw, sy'n cynnwys y dogfennau a restrir uchod o dan 'Atodiadau'. Nid yw'r Ffurflen Hawlio, y Dyfarniad trwy Ddiffyg na Hysbysiad y Cais nac unrhyw Amddiffyniad drafft wedi cael eu darparu at ddiben yr asesiad hwn. Nid oes angen y rhain arnoch wrth wneud eich argymhellion (submissions).**

3. **Ni fydd cyfreithiwr yr Hawlydd yn bresennol yn yr ystafell gyda chi yn ystod yr asesiad. Fodd bynnag, wrth lunio eich dadleuon dylech gymryd yn ganiataol y bydd cyfreithiwr yr Hawlydd yn ymateb i'ch argymhellion.**

4. **Nid oes angen i chi annerch (address) y llys am gostau'r gwrandawiad nac unrhyw gyfarwyddiadau eraill mewn perthynas â rheoli'r achos, ac ni fydd gofyn i chi wneud hynny.**

5. **Ni fydd y Barnwr Rhanbarth yn gwneud gorchymyn pan fyddwch yn cwblhau eich argymhellion ac ni ddylech ddisgwyl iddo wneud hynny.**

**Rhestr eirfa ar gyfer Eiriolaeth> Datrys anghydfodau**

| **Cymraeg** | **Saesneg** |
|---|---|
| annerch | address |
| arddangosyn | exhibit |
| argymell/argymhellion | submit/submissions |
| dirmyg llys | contempt of court |
| dyfarniad trwy ddiffyg | judgment in default |
| cydnabyddiad cyflwyno | acknowledgment of service |
| diofalwch | oversight |
| dyfarniad trwy ddiffyg | judgment in default |
| edefion | thread(s) |
| lliain | linen |
| moch coed | pine cones |
| rhoi o'r neilltu | set aside |
| teler datganedig | express term |

YN Y LLYS SIROL | Rhif yr Hawliad: C3YJ63RA

RHWNG:

Manston Press Limited | Yr Hawlydd

a

Hoswell Fabrics Limited | Y Diffynnydd

MANYLION YR HAWLIAD

1. Mae’r Hawlydd yn gyhoeddwr llyfrau teithio â’i swyddfa yn Llundain. Mae'r Diffynnydd yn cynhyrchu gorchuddion wal sydd wedi'u brodio â llaw yn ei ffatri yn Swydd Rydychen.

2. Trwy gontract ysgrifenedig dyddiedig 18 Tachwedd 202# (y 'Contract'[1]), cytunodd y Diffynnydd i gyflenwi gorchudd wal wedi'i frodio â llaw (y 'Gorchudd Wal') a chytunodd yr Hawlydd i’w brynu am £12,000 (gan gynnwys TAW). Roedd y swm hwn yn daladwy ar ffurf blaendal cychwynnol o 10% wrth archebu, gyda'r gweddill yn ddyledus erbyn 21 Ionawr 202#.

3. Llofnododd yr Hawlydd y Contract a thalu’r blaendal o £1,200 ar 18 Tachwedd 202#. Talodd yr Hawlydd y balans llawn o £10,800 i’r Diffynnydd ar 21 Ionawr 202#.

4. Roedd teler datganedig (express term) yn y Contract yn dweud y byddai'r Gorchudd Wal yn cael ei wneud yn ôl dyluniad a manyleb y cytunwyd arnynt ar lafar rhwng y partïon. Daeth yr Hawlydd a'r Diffynnydd, ill dau drwy eu rheolwr gyfarwyddwyr, i gytundeb llafar dros y ffôn ar 15 Tachwedd 202#, y byddai'r Gorchudd Wal wedi’i wneud o ddefnydd lliain (linen) o liw hufen gyda dyluniad o goed palmwydd bach wedi'u brodio ag edefion (thread) aur.

5. Roedd teler datganedig pellach yn y Contract y byddai'r Gorchudd Wal yn cael ei anfon at yr Hawlydd cyn 24 Chwefror 202#.

6. Gan dorri telerau datganedig y Contract, ni wnaed y Gorchudd Wal yn unol â’r dyluniad a’r fanyleb a nodir ym mharagraff 4 uchod ac ni chyflawnwyd y fanyleb gywir erbyn 24 Chwefror 202#.

[1] At ddibenion yr asesiad, nid yw'r Contract wedi’i ddarparu.

Manylion y Torcontract

Nid oedd y Gorchudd Wal a gyflenwyd gan y Diffynnydd yn bodloni telerau datganedig y Contract oherwydd:

a) cafodd ei wneud o felfed glas tywyll ac nid defnydd lliain hufen;

b) roedd wedi'i orchuddio â dyluniad brodwaith o foch coed (pine cones) gwyrdd, aur ac arian mawr ac nid coed palmwydd aur bach; ac

c) ni chafodd ei gyflwyno yn unol â'r fanyleb gywir cyn 24 Chwefror 202#.

7. Oherwydd torri telerau datganedig y Contract fel y cyfeirir atynt uchod, mae'r Hawlydd wedi gwrthod y Gorchudd Wal a'i anfon yn ôl ac mae wedi dioddef colled.

Manylion y Golled

Y gost o £12,000 i brynu'r Gorchudd Wal.

8. Mae'r Hawlydd hefyd yn hawlio llog o dan Adran 69 o Ddeddf Llysoedd Sirol 1984 ar £1,200 rhwng 18 Tachwedd 202# a 21 Ionawr 202# ac ar £12,000 rhwng 21 Ionawr 202# ac 11 Mai 202# ar gyfradd o 8% y flwyddyn, sy'n dod i gyfanswm o £306.14 ar 11 Mai 202# ac yna'n parhau hyd nes y dyfarniad neu daliad cyn hynny ar gyfradd o £2.63 y dydd.

AC MAE'R HAWLYDD YN HAWLIO:

(1) £12,000 yn unol â pharagraff 7 uchod.
(2) Llog yn unol â pharagraff 8 uchod.

**Datganiad Gwirionedd**

Mae'r Hawlydd yn credu bod y ffeithiau a nodir ym Manylion yr Hawliad hwn yn wir. Deallaf y gellir dwyn achos am ddirmyg llys (contempt of court) yn erbyn unrhyw un sy'n gwneud datganiad ffug, neu'n achosi i ddatganiad ffug gael ei wneud, mewn dogfen a gadarnhawyd gan ddatganiad gwirionedd heb gred onest ei fod yn wir.

Rwyf wedi fy awdurdodi'n briodol gan yr Hawlydd i lofnodi'r datganiad hwn.

Llofnod: *Brynn Parsons*

Brynn Parsons, rheolwr gyfarwyddwr Manston Press Limited
Dyddiad: 11 Mai 202#

Cyfreithwyr yr Hawlydd yw Trinder & Arkwright, 34 Melton Way, Llundain EC2 3LH, a dyma le byddant yn derbyn cyflwyno dogfennau'r achos ar ran yr Hawlydd.

Y Diffynnydd
M Adams
1af
Arddangosyn: MA1
Dyddiad: 5 Gorffennaf 202#

YN Y LLYS SIROL — Rhif yr Hawliad: C3YJ63RA

RHWNG:

Manston Press Limited — Yr Hawlydd

a

Hoswell Fabrics Limited — Y Diffynnydd

---

DATGANIAD TYST MABEL ADAMS

---

Byddaf i, Mabel Adams o Applebarn Cottage, Witney, Swydd Rydychen OX31 4LF, yn dweud fel a ganlyn:

1. Myfi yw rheolwr gyfarwyddwr yr Diffynnydd yn y mater hwn. Rwy'n gwneud y datganiad hwn i gefnogi cais y Diffynnydd i roi o'r neilltu'r dyfarniad trwy ddiffyg a gofnodwyd ar 16 Mehefin 202# (y 'Dyfarniad') ac rwyf wedi fy awdurdodi i wneud hynny ar ran y Diffynnydd. Rwy'n datgan hyn yn unol â fy ngwybodaeth fy hun, ac eithrio lle byddaf yn dweud fel arall. Os felly, byddaf yn rhoi ffynhonnell yr wybodaeth neu'r gred honno. Rwy'n cadarnhau bod y datganiad tyst hwn wedi'i gymryd oddi wrthyf gan gyfreithiwr y Diffynnydd, wyneb yn wyneb.

2. Mae'r Dyfarniad am £12,000, sef cost y gorchudd wal a brynwyd gan y Diffynnydd. Am y rhesymau a nodir isod, mae'r Diffynnydd yn gwadu bod y swm hwn (nac unrhyw swm arall) yn ddyledus i'r Hawlydd.

3. Methodd y Diffynnydd â ffeilio cydnabyddiad cyflwyno o ganlyniad i fy niofalwch (oversight) i, fel yr eglurir isod, ac rwy'n ymddiheuro'n fawr am hynny.

4. Mae'r Diffynnydd yn arbenigo mewn creu gorchuddion wal brodwaith â llaw o ansawdd uchel ar gyfer cleientiaid corfforaethol a phreifat. Mae'r gorchuddion wal yn cael eu gwneud mewn amrywiaeth o wahanol ddyluniadau a ffabrigau, yn dibynnu ar ofynion y cleient.

5. Ymrwymodd y Diffynnydd (trwof i) i gontract ysgrifenedig gyda'r Hawlydd (trwy ei reolwr gyfarwyddwr, Brynn Parsons) ar 18 Tachwedd 202#. Yn unol â'r contract, cytunodd yr Hawlydd i brynu gorchudd wal wedi'i frodio â llaw ar gyfer ei swyddfa newydd yn Llundain (y 'Swyddfa') gan y Diffynnydd. Cyfanswm cost y gorchudd wal oedd £12,000. Talodd yr Hawlydd flaendal o 10% sef £1,200 ar 18 Tachwedd 202#. Roedd y balans o £10,800 yn daladwy ar 21 Ionawr 202#, tua mis cyn y dylai'r gorchudd wal fod wedi'i anfon i'r Swyddfa.

6. Cwrddais â Mr Parsons am y tro cyntaf ar 8 Tachwedd 202# yn y Swyddfa i drafod y gorchudd wal yr oedd yr Hawlydd yn bwriadu ei brynu i'w hongian ar wal fawr yn ei dderbynfa. Dywedodd Mr Parsons wrthyf yn y cyfarfod hwnnw ei fod am i'r gorchudd wal fod â 'thema awyr agored' a gwneud datganiad 'hyderus' i gleientiaid yr Hawlydd.

7. Yn ystod ein cyfarfod, nododd Mr Parsons ei fod am gomisiynu'r gorchudd wal mewn ffabrig lliain hufen, wedi'i frodio â choed palmwydd bach o edefion aur. Dywedais wrtho na fyddai ffabrig lliain golau yn cael yr effaith 'hyderus' yr oedd yn gobeithio ei chael yn erbyn y wal ac anogais iddo ystyried ffabrig lliw. Awgrymais ffabrig felfed glas tywyll gyda dyluniad moch coed amlwg wedi'i frodio ag efedion gwyrdd, aur ac arian. Roeddwn i'n teimlo y byddai hyn yn 'thema awyr agored' fwy addas a dangosais iddo ffotograff o ddyluniad o'r fath o orchudd wal yr oeddwn wedi'i gynhyrchu ar gyfer cleient arall. Dywedodd Mr Parsons wrthyf ei fod yn credu bod y gorchudd wal yn y ffotograff yn 'hardd' ond roedd yn poeni y byddai'n rhy gryf ar gyfer y dderbynfa. Fodd bynnag, dywedodd y byddai'n fy ffonio'r wythnos ganlynol i roi gwybod i mi am ei benderfyniad.

8. Wrth i mi adael, esboniodd Mr Parsons y byddai'r Hawlydd yn cynnal digwyddiad i gleientiaid yn y Swyddfa ar 24 Chwefror 202#. Roedd am i'r gorchudd wal fod yn barod cyn y dyddiad hwnnw fel y gallai gael ei arddangos yn y digwyddiad i gleientiaid.

9. Gwnaeth Mr Parsons fy ffonio'r wythnos ganlynol, ar 15 Tachwedd 202#, gan ddweud wrthyf ei fod am i'r gorchudd wal fod 'fel yr un yn y ffotograff'. Fe wnes i gadarnhau manylion ein trafodaeth ffôn mewn e-bost ato yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw, y mae copi ohono wedi'i farcio'n arddangosyn **MA1**, ac atodais wrth yr e-bost gopi o gontract y Diffynnydd a oedd yn ymgorffori ei delerau ac amodau busnes safonol. Llofnododd Mr

Parsons y contract ar ran yr Hawlydd a'i ddychwelyd drwy e-bost. Talodd y blaendal ar 18 Tachwedd 202#.[2]

10. Dechreuodd y Diffynnydd weithio ar orchudd wal yr Hawlydd ddiwedd mis Tachwedd 202#. Wedi hynny talodd yr Hawlydd y balans o £10,800 ar 21 Ionawr 202#.

11. Gorffennwyd y gorchudd wal yn gynnar ym mis Chwefror 202#. Gwiriais y gorchudd wal i sicrhau nad oedd yn cynnwys unrhyw ddiffygion a'i fod yn union fel yr oeddem wedi cytuno. Gan fod disgwyl i mi fynd i gyfarfodydd yn Llundain ar 8 Chwefror 202#, penderfynais fynd â'r gorchudd wal i'r Swyddfa fy hun. Nid oedd Mr Parsons yn y Swyddfa'r diwrnod hwnnw, felly cwrddais â chyfarwyddwr gwerthu'r Hawlydd, Miss Sunita Gower. Dywedodd Miss Gower wrthyf am ei adael yn ei becyn ar ddesg y dderbynfa.

12. Ar 14 Chwefror 202# cefais alwad ffôn gan Mr Parsons. Roedd yn anfodlon ac yn cwyno nad oedd y gorchudd wal fel y cytunwyd arno yn ystod ein sgwrs ffôn ar 15 Tachwedd 202#. Dywedodd wrthyf na fyddai'r Hawlydd yn ei dderbyn ac y byddai'n cael ei ddychwelyd at y Diffynnydd. Dywedodd wrthyf hefyd ei fod am gael gorchudd wal newydd yn ei le cyn 24 Chwefror. Rhoddais wybod i Mr Parsons fod y gorchudd wal i'r fanyleb yr oeddem wedi cytuno arni a'i fod wedi cael ei anfon at yr Hawlydd yn unol â'r contract. Dywedais wrtho hefyd ei bod yn amhosibl i'r Diffynnydd gynhyrchu a chyflenwi gorchudd wal pellach mewn 10 niwrnod os bu newid i ofynion yr Hawlydd. O glywed hyn, aeth Mr Parsons yn ddig gan weiddi arnaf 'fod ar y Diffynnydd £12,000 i'r Hawlydd'. Yna, daeth ef â'r alwad ffôn i ben yn sydyn.

13. Ar 25 Chwefror 202#, cyrhaeddodd flwch cardbord brown drwy'r post yn swyddfa'r Diffynnydd a oedd yn cynnwys y gorchudd wal. Ceisiais ffonio Mr Parsons i drafod y sefyllfa ond, er gwaethaf sawl galwad ffôn i'r Swyddfa ac i ffôn symudol personol Mr Parsons yn ystod y diwrnodau canlynol, nid oeddwn yn gallu cael gafael arno.

14. Ni chlywais unrhyw beth yn rhagor gan yr Hawlydd. Yng nghanol mis Mai 202#, cyflwynwyd Ffurflen Hawlio[3] a Manylion yr Hawliad i'r Diffynnydd, gan fynnu taliad o £12,000 ynghyd â llog. Roedd yr Hawlydd yn honni nad oedd y gorchudd wal a ddarparwyd gan y Diffynnydd yn unol â'r dyluniad a'r fanyleb y cytunwyd arnynt rhwng y partïon ac na chafodd ei anfon ar amser.

---

[2] Dyma'r contract y cyfeirir ato ym mharagraff 2 o Fanylion yr Hawliad ac nid yw'n wedi'i ddarparu at ddiben yr asesiad.

[3] Nid yw wedi'i ddarparu at diben yr asesiad hwn.

15. Yn anffodus, roeddwn i ffwrdd o'r gwaith am ddeufis gyda salwch o 6 Ebrill 202# ymlaen, felly ni welais y Ffurflen Hawlio na Manylion yr Hawliad tan yn fuan ar ôl i mi ddychwelyd i'r swyddfa ar 15 Mehefin 202#. Roedd y Diffynnydd hefyd wedi derbyn llythyr hawlio a gohebiaeth arall gan gyfreithiwr yr Hawlydd yn ystod y cyfnod hwn, a chafodd y rhain eu gadael heb eu hagor ar ddesg fy swyddfa i. Nid oeddwn wedi gweld y dogfennau hyn o'r blaen ac roeddwn yn ansicr iawn ynghylch beth roeddent yn ei olygu.

16. Ychydig ddiwrnodau’n ddiweddarach derbyniodd y Diffynnydd y Dyfarniad mewn amlen gan gyfreithwyr yr Hawlydd. Ffoniais fy nghyfreithiwr, Matthew Carrick yn Spring & Hughes LLP, yn syth i ofyn am ei gyngor, a daeth ef i swyddfa'r Diffynnydd i edrych ar yr ohebiaeth a phapurau'r llys y diwrnod hwnnw. Rwy'n deall gan Mr Carrick ei fod wedi cysylltu â chyfreithwyr yr Hawlydd am y tro cyntaf ar 26 Mehefin 202#, ond ni ddychwelodd cyfreithiwr yr Hawlydd, Miss Priti Raja, ei alwad ffôn tan 28 Mehefin 202#. Gwahoddodd Mr Carrick yr Hawlydd i gydsynio i roi'r Dyfarniad o'r neilltu, ond dywedodd Miss Raja wrtho na fyddai'r Hawlydd yn rhoi ei gydsyniad ac y byddai unrhyw gais a wneir at y diben hwn yn cael ei wrthwynebu. Felly, fe wnes i gyfarwyddo i Mr Carrick wneud cais i roi'r dyfarniad o'r neilltu.

17. Am y rhesymau a nodir uchod, mae'r Diffynnydd o'r farn bod ganddo amddiffyniad i'r hawliad. Dan yr amgylchiadau, gofynnaf yn barchus i'r Dyfarniad gael ei roi o'r neilltu.

**<u>Datganiad Gwirionedd</u>**

Credaf fod y ffeithiau a nodir yn y datganiad tyst hwn yn wir. Deallaf y gellir dwyn achos am ddirmyg llys yn erbyn unrhyw un sy'n gwneud datganiad ffug, neu’n achosi i ddatganiad ffug gael ei wneud, mewn dogfen a gadarnhawyd gan ddatganiad gwirionedd heb gred onest ei fod yn wir.

Llofnod: *Mabel Adams*

Mabel Adams – rheolwr gyfarwyddwr y Diffynnydd

Dyddiad: 5 Gorffennaf 202#

**E-bost at Brynn Parsons**

**Oddi wrth:** Mabel Adams <m.adams@hoswell.com>
**Anfonwyd:** 15 Tachwedd 202#
**At:** Brynn Parsons <bp@manstonpress.co.uk>
**Pwnc:** Gorchudd wal

Brynn,

Roedd hi'n bleser cael siarad â chi yn gynharach heddiw. Rwy'n falch iawn eich bod yn hoffi fy awgrym a'n bod ni wedi dod i gytundeb am y gorchudd wal - am benderfyniad rhagorol. Fel yr ydym wedi trafod, bydd brodwaith 'hyderus' yn edrych yn syfrdanol o hardd y tu ôl i ddesg y dderbynfa.

Gadewch bopeth gyda mi; bydd fy nhîm yn dechrau gweithio ar y prosiect yr wythnos nesaf, yn seiliedig ar y cyfarwyddiadau rydych chi wedi'u rhoi i mi. Fe gysylltaf eto pan fydd y gwaith wedi ei orffen - ond yn y cyfamser, dyma gopi o'n contract safonol sy'n ymgorffori ein telerau a'n hamodau busnes i chi ei ddarllen a'i lofnodi.

Gadewch i mi wybod os bydd unrhyw gwestiynau gennych.

Cofion,

Mabel

Amg. Cytundeb safonol gan gynnwys telerau ac amodau busnes.[4]

**Rwy'n cadarnhau mai hwn yw arddangosyn 'MA1' y cyfeirir ato yn fy natganiad tyst dyddiedig 5 Gorffennaf 202#.**

**Llofnod:** Mabel Adams **Dyddiad:** 5 Gorffennaf 202#

[4] Nid yw hwn wedi'i amgáu at ddiben yr asesiad hwn.

Yr Hawlydd
B Parsons
1af
Dyddiad: 14 Gorffennaf 202#

YN Y LLYS SIROL. Rhif yr Hawliad: C3YJ63RA

RHWNG:

Manston Press Limited — Yr Hawlydd

a

Hoswell Fabrics Limited — Y Diffynnydd

---

DATGANIAD TYST BRYNN PARSONS

---

Byddaf i, Brynn Parsons, o Mackintosh House, Halberton Road, Llundain N1 3PQ, yn dweud fel a ganlyn:

1. Myfi yw rheolwr gyfarwyddwr yr Hawlydd yn y mater hwn. Rwy'n gwneud y datganiad hwn i wrthwynebu cais y Diffynnydd i roi o'r neilltu'r dyfarniad trwy ddiffyg a gofnodwyd ar 16 Mehefin 202# (y 'Dyfarniad') ac rwyf wedi fy awdurdodi i wneud hynny ar ran yr Hawlydd. Rwy'n datgan hyn yn unol â'm gwybodaeth fy hun, ac eithrio lle byddaf yn dweud fel arall. Os felly, byddaf yn rhoi ffynhonnell yr wybodaeth neu'r gred honno.
Rwy'n cadarnhau bod y datganiad tyst hwn wedi'i gymryd oddi wrthyf gan gyfreithiwr yr Hawlydd, wyneb yn wyneb.

2. Rwyf wedi darllen datganiad tyst Mabel Adams ('Datganiad y Tyst') sy'n cefnogi cais y Diffynnydd i roi'r Dyfarniad o'r neilltu ac rwyf wedi nodi fy sylwadau ar hyn isod. Mae'r Hawlydd yn dal i honni bod y swm o £12,000 yn ogystal â llog yn daladwy gan y Diffynnydd.

3. Yn dilyn argymhelliad, comisiynodd yr Hawlydd y Diffynnydd i gynhyrchu gorchudd wal brodwaith (y 'Gorchudd Wal') ar gyfer derbynfa swyddfa'r Hawlydd yn Llundain (y 'Swyddfa'). Ymrwymodd y partïon i gontract ysgrifenedig ar 18 Tachwedd 202# fel y nodir ym mharagraff 5 o Ddatganiad y Diffynnydd.

4. Mae'r drafodaeth a nodir ym mharagraffau 6-8 o Ddatganiad y Diffynnydd yn gywir, er nid wyf yn cytuno y gwnaeth Ms Adams, fel y nodir ym mharagraff 7, fy nghynghori yn erbyn fy awgrym cychwynnol, sef ffabrig lliain hufen golau gyda choed palmwydd bach wedi'u brodio, ar gyfer y Gorchudd Wal. I'r gwrthwyneb, rwy'n cofio iddi ddweud wrthyf ei bod hi’n credu bod lliain o liw golau’n 'ddewis soffistigedig iawn, a allai weithio'n dda iawn'.

5. Fodd bynnag, mae'n gywir ein bod wedi trafod rhai opsiynau eraill a'i bod hi wedi dangos ffotograff i mi o orchudd wal yr oedd wedi'i gynhyrchu ar gyfer cleient arall, o felfed tywyll gyda moch coed mawr wedi'u brodio ag edefion gwyrdd, aur ac arian. Rwy'n cofio i mi ei edmygu ac fe wnaeth Ms Adams fy annog i ystyried a allai weithio yn y Swyddfa. Fodd bynnag, dywedais wrthi fy mod yn poeni y byddai'n anaddas ar gyfer y lleoliad hwnnw ond y byddwn i'n meddwl amdano.

6. Fel y nodir ym mharagraff 9 o Ddatganiad y Diffynnydd, ffoniais Ms Adams ar 15 Tachwedd 202# i gadarnhau dyluniad y Gorchudd Wal yr oeddwn am ei gael. Fodd bynnag, mae ei hanes o'n sgwrs yn wahanol iawn i fy un i. Ni ddywedais wrthi fod yr Hawlydd eisiau archebu'r Gorchudd Wal mewn dyluniad 'yn union fel yr un yn y ffotograff'. Rwy'n cofio fy unig gyfeiriad at y ffotograff oedd dweud wrthi, er bod y dyluniad hwnnw wedi creu argraff arnaf, roedd yn parhau i fod yn wir fy mod i eisiau ffabrig lliain hufen gyda choed palmwydd bach wedi'u brodio ag edefion aur yn unig. Dywedodd ei bod hi’n deall fy ngofynion, ac fe wnes i ei hatgoffa mai'r terfyn amser ar gyfer cwblhau'r prosiect oedd cyn 24 Chwefror 202# fel y gallai'r Gorchudd Wal fod yn ei le ar gyfer digwyddiad yr Hawlydd i gleientiaid yn y Swyddfa.

7. Yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw, anfonodd Ms Adams e-bost ataf yn amgáu copi o gontract safonol y Diffynnydd, a oedd yn ymgorffori ei delerau a'i amodau busnes. Llofnodais gopi ohono a’i anfon yn ôl trwy e-bost ar 18 Tachwedd 202# a thalodd yr Hawlydd y blaendal. Fy unig gysylltiad arall â'r Diffynnydd yn ystod y misoedd canlynol oedd sicrhau bod yr Hawlydd yn talu'r balans o £10,800 a oedd yn ddyledus ar 21 Ionawr 202#.

8. Yn gynnar ym mis Chwefror 202# daeth Ms Adams â’r Gorchudd Wal i’r Swyddfa yn bersonol. Pan ddychwelais i'r Swyddfa ar 13 Chwefror, cefais fraw mawr o weld nad oedd y Gorchudd Wal fel y cytunwyd arno. Roedd yn ffabrig felfed glas tywyll gyda dyluniad moch coed mawr wedi'u brodio ag edefion gwyrdd, aur ac arian; yn debyg iawn i'r dyluniad yn y ffotograff y cyfeirir ato ym mharagraff 5 uchod.

9. Cysylltais â'r Diffynnydd ar 14 Chwefror 202# i siarad â Ms Adams. Yn ystod ein sgwrs ffôn, dywedais wrthi nad oedd yr Hawlydd am gadw'r Gorchudd Wal gan nad oedd i'r fanyleb y cytunwyd arni. Gofynnais iddi ddarparu gorchudd wal newydd ar frys, o ystyried y terfyn amser a oedd ar ddod, sef 24 Chwefror. Ychydig iawn a ddywedodd hi wrthyf, heblaw dweud na fyddai darparu gorchudd newydd yn bosibl ac mewn rhwystredigaeth, fe ddes i â'r alwad i ben. Yn ystod y diwrnodau canlynol ceisiais siarad â Ms Adams eto i ddatrys y mater ond nid oeddwn yn gallu siarad â hi. Dan yr amgylchiadau, dychwelais y Gorchudd Wal i'r Diffynnydd.

10. Yn absenoldeb unrhyw ymateb gan Ms Adams i'm galwadau ffôn, teimlais nad oedd gennyf ddewis arall ond cyfarwyddo cyfreithwyr yr Hawlydd i gysylltu â'r Diffynnydd ar ran yr Hawlydd. Anfonodd cyfreithiwr yr Hawlydd lythyr hawlio[5], at y Diffynnydd ar 5 Ebrill 202# neu ddyddiad agos. Ni chafodd y llythyr hawlio ei gydnabod gan y Diffynnydd. Yn unol â hynny, fe wnaeth yr Hawlydd gyfarwyddo i'w gyfreithwyr gychwyn achos llys yn erbyn y Diffynnydd ar 11 Mai 202#.

11. Er nad wyf yn anghytuno bod Ms Adams yn sâl o 6 Ebrill 202# ymlaen, mae'n dal i fod yn wir na wnaeth y Diffynnydd ffeilio cydnabyddiad cyflwyno nac amddiffyniad. Yn unol â hynny, gwnaeth cyfreithwyr yr Hawlydd gais am ddyfarniad trwy ddiffyg cydnabyddiad cyflwyno, a gafwyd ar 16 Mehefin 202#.

12. Am y rhesymau a nodir uchod, gofynnaf i gais y Diffynnydd gael ei wrthod, a bod y Diffynnydd yn cael gorchymyn i dalu costau'r Hawlydd ar gyfer y cais hwn.

**<u>Datganiad Gwirionedd</u>**

Credaf fod y ffeithiau a nodir yn y datganiad tyst hwn yn wir. Deallaf y gellir dwyn achos am ddirmyg llys yn erbyn unrhyw un sy'n gwneud datganiad ffug, neu'n achosi i ddatganiad ffug gael ei wneud, mewn dogfen a gadarnhawyd gan ddatganiad gwirionedd heb gred onest ei fod yn wir.

Llofnod: *Brynn Parsons*

Dyddiad: 14 Gorffennaf 202#

Brynn Parson – rheolwr gyfarwyddwr yr Hawlydd

---

[5] Nid yw hwn wedi'i gynnwys at ddiben yr asesiad.

# Trafodaeth ar yr ateb

**Eiriolaeth (Datrys Anghydfodau)**

**PWYNTIAU CYFREITHIOL ALLWEDDOL**

Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

Sylwer nad oes angen cyfraith achos na chyfeiriadau statudol union (e.e. Rhan 13 o Reolau Trefniadaeth Sifil a *Denton v TH White* [2014 CA]).

**Dadansoddiad achos**

Nodi ffeithiau i'w dadlau a'r rhai y cytunir arnynt drwy ddadansoddi'r hawliad a'r dystiolaeth i ddod i'r casgliad bod yr anghydfod yn ymwneud â manyleb a dyddiad cyflwyno'r gorchudd wal.

**Dadleuon cyfreithiol i roi dyfarniad trwy ddiffyg o'r neilltu**

- Nodi y gallai'r llys roi'r dyfarniad o'r neilltu neu ei amrywio os oes gan y diffynnydd obaith gwirioneddol o amddiffyn yr hawliad yn llwyddiannus.
- Ystyried y dewis i argymell (submit) bod sail yr amddiffyniad yn ymwneud â dyluniad y gorchudd wal y cytunwyd arno.
- Ystyried i ba raddau wnaeth y diffynnydd weithredu'n brydlon.
- Nodi bod cais i roi dyfarniad trwy ddiffyg o'r neilltu hefyd yn gais am ryddhad rhag sancsiynau a chymhwyso'r ffeithiau i gefnogi'r prawf tri cham a nodir yn Denton.

**RECORDIAD O ENGHRAIFFT**

**Isod darperir recordiad sy'n enghraifft o berfformiad ymgeisydd (yn Saesneg). Dyma recordiad o enghraifft o ymgeisydd a fyddai'n cael ei asesu fel un sy'n amlwg yn cyflawni gofynion cymhwysedd yr asesiad Eiriolaeth.**

**Nid yw'r recordiad yn ateb perffaith na delfrydol ac fe ellid gwneud pwyntiau pellach.**

**Eiriolaeth Llafar Datrys Anghydfodau SQE2: Enghraifft o Berfformiad Ymgeisydd (Saesneg)**

**DADANSODDIAD**

***Pam mae hi'n glir bod yr ymgeisydd yn yr enghraifft wedi pasio'r asesiad?***

Ni fwriedir i'r canllawiau canlynol awgrymu mai dyma'r unig ffordd bosibl o ateb ond bydd yn eich helpu i ddeall pam y byddai'r ymgeisydd yn y recordiad o enghraifft yn cael ei ystyried fel un y mae'n glir ei fod wedi pasio yn unol â'r meini prawf asesu ar gyfer yr asesiad.

**Meini prawf yr asesiad**

Mae'r meini prawf asesu ar gyfer eiriolaeth fel a ganlyn:

***Sgiliau***

1. Defnyddio iaith ac ymddygiad priodol.
2. Mabwysiadu strwythur clir a rhesymegol.
3. Cyflwyno dadl berswadiol.
4. Rhyngweithio â’r llys/ennyn sylw’r llys yn briodol.
5. Cynnwys yr holl ffeithiau perthnasol allweddol.

***Cymhwyso’r gyfraith***

6. Cymhwyso’r gyfraith yn gywir at sefyllfa’r cleient.
7. Cymhwyso’r gyfraith mewn modd cynhwysfawr at sefyllfa’r cleient, gan nodi unrhyw faterion sy’n ymwneud ag ymddygiad moesegol a phroffesiynol a defnyddio crebwyll i’w datrys yn onest ac yn ddidwyll.

Mae hi'n glir o edrych ar y meini prawf uchod bod perfformiad yr ymgeisydd yn gymwys am y rhesymau canlynol:

| ***MEINI PRAWF SGILIAU*** | |
|---|---|
| **Defnyddio iaith ac ymddygiad priodol** | Mae argymhellion yr ymgeisydd yn glir ac mae'n defnyddio iaith sy'n briodol ar gyfer y llys (e.e. “If I can refer you…” ac “It is my submission...”). Mae'r ymgeisydd yn cyfarch y Barnwr Rhanbarth yn briodol ("Judge"). |
| **Mabwysiadu strwythur clir a rhesymegol** | Defnyddiodd yr ymgeisydd arwyddion llafar i arwain y barnwr drwy ei argymhellion (e.e. “Judge, if I may now refer you to the background to this dispute…”). Trefnodd yr ymgeisydd ffeithiau mewn trefn resymegol i gefnogi ei ddadleuon (e.e. delio ag anghydfod ffeithiau ynghylch dyluniad y gorchudd wal wrth gyfeirio at doriad honedig y contract). |
| **Cyflwyno dadl berswadiol** | Roedd yr ymgeisydd yn oedi ar adegau, ac yn dibynnu ychydig gormod ar ei nodiadau ond yn gyffredinol mae'n cyflwyno ei achos gyda hyder a phwrpas. Ceisiodd yr ymgeisydd ddylanwadu ar benderfyniadau'r barnwr (e.e. “On the basis of this evidence, Judge, in my submission, my client clearly has a defence with a real prospect of success...”). |

| | |
|---|---|
| **Rhyngweithio â'r llys/ennyn sylw'r llys yn briodol.** | Gwnaeth yr ymgeisydd argymhellion ar gyflymder priodol a chyfeirio'r llys at baragraffau perthnasol y ddogfennaeth i gefnogi ei argymhellion (e.e. "Judge, you will see this from paragraphs 2 and 5 of the Particulars of Claim…"). |
| **Cynnwys yr holl ffeithiau perthnasol allweddol** | Cyfeiriodd yr ymgeisydd at ffeithiau a oedd yn berthnasol i'w argymhellion cyfreithiol (e.e. y ffotograff o orchudd wal; y rhesymau dros absenoldeb Mabel Adams o'r swyddfa pan gyflwynwyd yr hawliad; gweithredoedd y Diffynnydd ar ôl derbyn y dyfarniad trwy ddiffyg). |
| ***MEINI PRAWF CYFREITHIOL*** | |
| **Cymhwyso'r gyfraith yn gywir i sefyllfa'r cleient** | Nododd yr ymgeisydd yr egwyddorion cyfreithiol perthnasol a'u cymhwyso'n gywir i achos y cleient, e.e. dylai'r llys arfer ei ddisgresiwn i roi'r dyfarniad trwy ddiffyg o'r neilltu yn ddiofyn oherwydd bod gan y Diffynnydd obaith gwirioneddol o amddiffyn yr hawliad.<br><br>Mae'r ymgeisydd yn mynd i'r afael â'r prif fater sy'n destun dadl a sail yr amddiffyniad.<br><br>Roedd yr ymgeisydd hefyd yn deall bod cais i roi dyfarniad trwy ddiffyg o'r neilltu hefyd yn gais am ryddhad rhag sancsiynau. |
| **Defnyddio'r gyfraith mewn modd cynhwysfawr yn sefyllfa'r cleient, gan nodi unrhyw faterion sy'n ymwneud ag ymddygiad moesegol a phroffesiynol, a defnyddio crebwyll i'w datrys yn onest ac yn ddidwyll** | Mae dadansoddiad cyfreithiol yr ymgeisydd yn ddigon manwl yng nghyd-destun ffeithiau achos y cleient. Nododd yr ymgeisydd y materion allweddol a oedd yn destun anghydfod gan gydnabod mai achos y Diffynnydd yw bod y gorchudd wal wedi'i gyflawni yn unol â'r dyluniad a'r fanyleb y cytunwyd arno ac fel y dangoswyd i Mr Parsons yn y ffotograff.<br><br>Defnyddiodd yr ymgeisydd ddatganiad tyst Mabel Adams i awgrymu mai achos y Diffynnydd yw nad oes torcontract ac, o ganlyniad, bod gan y Diffynnydd obaith gwirioneddol o amddiffyn yr hawliad yn llwyddiannus. Cymhwysodd yr ymgeisydd y ffeithiau'n briodol i ddangos bod y Diffynnydd wedi gweithredu'n brydlon wrth wneud ei gais.<br><br>Aeth yr ymgeisydd i'r afael â phob un o lwybrau'r prawf a nodwyd yn *Denton* gyda rhywfaint o gyfeiriad at y ffeithiau i gefnogi ei argymhellion (e.e. bod diffyg ffeilio cydnabyddiad cyflwyno yn ddifrifol). |